Athrawes/Teacher Mrs Sioned King

Dyma blwyddyn 2, mae gyda ni 21 o ddisgyblion. Enw ein dosbarth ni yw 'Dosbarth Ynys Bŷr'.

Bwriad y dudalen hon yw rhoi i chi flas o'r hyn sy'n digwydd yn yr ystafell ddosbarth blwyddyn 2 drwy gydol y flwyddyn.

Tymor yma bydd dosbarth 'Ynys Bŷr' yn astudio'r thema 'Iechyd Da!' o fewn i'r chwe maes dysgu.

Mae'r cyfnod sylfaen yn cyfoethogi'r profiadau dysgu sy'n galluogi disgyblion i fod yn greadigol, llawn dychymyg a chael hwyl wrth ddysgu. Bydd y disgyblion yn cael mwy o gyfleoedd i archwilio'r byd o'u cwmpas drwy weithredu'r gweithgareddau strwythuredig a fydd yn ymgysylltu ac yn cymell i ddod yn ddysgwyr effeithiol.

Gwaith Cartref

Mi fydd gwaith cartref yn cael ei osod ar Ddydd Gwener, disgwylir i'r disgyblion ei gyflawni erbyn Dydd Mawrth.

Llyfrau darllen

Rydym yn ceisio darllen gyda'r disgyblion yn ddyddiol felly mae'n hanfodol eu bod nhw'n dod â'u llyfrau darllen bob dydd. Bydd llyfrau yn cael eu newid pan fydd disgybl wedi cyflawni'r llyfr ac yn dangos ei bod wedi deall yr hyn y maent wedi ei ddarllen.

Ymarfer Corff

Mae sesiynau ymarfer corff yn cael ei gynnal pob prynhawn Dydd Iau, disgwylir i'r disgyblion newid i'w gwisg ymarfer corff cyn cymryd rhan. Crys t (Lliw eu tŷ) siorts/trowser tywyll ac esgidiau ymarfer corff os yn bosibl